| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Rhagfyr 2013** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Cyllideb 2014/15 - Diweddariad** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Trydydd diweddariad yw'r adroddiad hwn ynglŷn â'r broses o osod cyllideb y cyngor ar gyfer 2014/15.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol swyddogaeth i gadw trosolwg o'r broses gyllidebu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma ac yn ystyried y camau arfaethedig nesaf.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Dangosodd dadansoddiad cychwynnol o Setliad Drafft Llywodraeth Leol a chanlyniadau hynny i'r cyngor y gallai fod angen arbedion o tua £8.5m.

Mae'r broses o osod cyllideb wedi arwain hyd yma at i arbedion o £1.7m ar gyfer 2014/15 gael eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir ym mis Medi (Cam 1) ac arbedion o £4.7m (Cam 2) ar 3 Rhagfyr.

Cyflwynwyd yr arbedion sydd wedi eu cynnwys yng Ngham 2 mewn gweithdy ar gyfer aelodau ar 21 Hydref a chyflwynwyd pob un o'r ceisiadau gan aelodau cabinet arweiniol, a wnaeth ddarparu manylion am yr arbediad, am yr effaith a darparu asesiad o'r risg. Yn dilyn y gweithdy, gwahoddwyd yr aelodau etholedig gan Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau a Phennaeth Cyllid ac Asedau i roi sylwadau ar unrhyw un o'r cynigion cyn cyfarfod y cyngor ym mis Rhagfyr. Cafwyd ymatebion mewn perthynas ag arbedion arfaethedig yn y gwasanaeth cerddoriaeth ysgolion (£52k) ac adolygiad o'r gwasanaeth cyfleoedd gwaith ar gyfer oedolion sydd ag anabledd dysgu (£50k). Cyflwynodd y Pennaeth Gwella Ysgolion ragor o fanylion i gefnogi'r arbediad yn y gwasanaeth cerddoriaeth fel atodiad i adroddiad y cyngor ac mae grŵp tasg a gorffen sy'n cynnwys aelodau etholedig wedi cael ei sefydlu i oruchwylio'r adolygiad o gyfleoedd gwaith.

Mae proses y gyllideb wedi dynodi arbedion o £6.459m hyd yma, gan adael bwlch o tua £2.0 miliwn i'w ganfod. Dyma fydd gweithdy nesaf yr aelodau a gynhelir ar 9 Rhagfyr yn canolbwyntio arno. Caiff adborth o'r sesiwn honno ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fel atodiad i ddilyn yr adroddiad hwn.

Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor hwn, er mwyn caniatáu amser i aelodau etholedig ddadansoddi'r papurau sydd i'w cyflwyno yn y gweithdy cyllideb, caiff yr holl bapurau eu hanfon at yr aelodau cyn 6 Rhagfyr.

Bydd yn rhaid i gynigion gogyfer â chyllideb derfynol a lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2014/15 fod wedi eu cytuno gan y Cyngor Sir fis Chwefror 2014.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r gyllideb yn sail i ddarparu pob un o flaenoriaethau a gwasanaethau'r cyngor.

## 6. Beth fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Y targed ar gyfer arbedion yn 2014/15 yw £8.5m. Mae £6.5m o arbedion wedi eu dynodi sy'n gadael bwlch o £2.0 miliwn i'w ganfod.

## 7. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd?

Mae'r arbedion sydd wedi eu cytuno hyd yma wedi cael eu trafod gyda Phenaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau Arweiniol, wedi cael eu cyflwyno mewn gweithdai cyllideb ar gyfer aelodau ac wedi cael eu dosbarthu i staff. Gwahoddwyd yr aelodau i roi sylwadau ar yr holl gynigion cyn eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir. Trafodir y set nesaf o gynigion gydag aelodau ar 9 Rhagfyr.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Mae proses y gyllideb hyd yma wedi dynodi 76% o'r arbedion sydd eu hangen er mwyn gosod cyllideb ar gyfer 14/15. Bydd cynigion i gyfarch y bwlch sy'n weddill yn cael eu trafod gydag aelodau ar 9 Rhagfyr.

## 9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Rhaid i effaith yr holl gynigion ar wasanaethau a'u heffaith ariannol fod wedi ei ystyried yn briodol fel rhan o broses gosod cyllideb.

Mae proses y gyllideb a rhagdybiaethau'r cynllun ariannol tymor canolig yn risgiau sydd wedi eu nodi yn y cofrestrau risg corfforaethol ac adrannol. Caiff

y gofrestr risg gorfforaethol a chamau lliniarol eu hadolygu'n rheolaidd gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol.